# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Tachwedd 7fed 2023 yn Neuadd Mynach Yn bresennol oedd Eifion Davies (cadeirydd), Bethan Thomas, Rita Jones, Eilir Rowlands, Gary Thomas, Alwyn Jones, Gwenda Morris, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo Evans, Gwenda Evans a Dewi Pritchard.

**Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Hydref a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Gwrych heibio Cae Wlff, Llandderfel – roedd y gweithlu wedi cael cyfarwyddiadau i'w dorri.
ii) Rhagor o symudiad yn wal gyferbyn a'r hen gapel yng Nglanrafon – roedd peirianydd o YBG am fynd allan i edrych arni.

b) Cais ariannol Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog – gwelliannau i'r mynwentydd.
Cafwyd diweddariad gan y clerc a chadarnhad fod cais wedi cael ei gyflwyno.

**iv) Gohebiaeth.**
Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Fferm Wynt Gaerwen.
i) Derbyniwyd diweddariad am eu hamserlen ac eglurhad eu bod yn rhagweld na fydd y cyfnod Ymgynghori Cyn Ymgeisio yn cychwyn tan yn gynnar yn 2024.
ii) Gwahoddiad i gyfarfod anffurfiol i drafod cronfa fuddsoddi gymunedol – cytunwyd i anfon dau gynrychiolydd.

b) Partneriaeth Penllyn.
i) Costau torri llwybrau - oherwydd toriadau yn y swm a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer torri llwybrau troed yr ardal a'r cynydd yn y costau o wneud y gwaith, roedd arian tu cefn y Bartneriaeth yn lleihau bob blwyddyn. Derbyniwyd cais am arian tuag at y golled a wnaed eleni ac yna ar gyfer 2024-25. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyfrannu £100 eleni a holi pa lwybrau oedd yn ofynol i'r Bartneriaeth ei dorri fel rhan o'r cytundeb a Chyngor Gwynedd.

c) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd – Tachwedd 2023.

ch) Amrywiol.
i) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – adroddiad blynyddol drafft.
ii) Dwr Cymru yn Llyn Celyn – gwahoddiad i sesiwn friffio 30/11/23. Cytunodd Alwyn Jones fynychu ar ran y Cyngor.
iii) Traffig Cymru – hysbysiad o waith ar gyfer yr A494, Cefnddwysarn i Sarnau.
iv) Llywodraeth Cymru – adolygiad o iechyd democrataidd yn y sector cynghorau cymuned a thref.
v) Mabon ap Gwynfor – gwahoddiad i gyfarfod, 14/12/23, i drafod newidiadau i'r gwasanaeth bws T3. Cytunwyd i fynychu'r cyfarfod.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) C23/0795/04/RA – Rhyddhau amod 4 o gais blaenorol. Cyn-doiledau Cyhoeddus a Thir Cyfagos, Llandderfel.
b) NP5/63/57E - Cais ôl-weithredol i osod un pod ar gyfer defnydd llety gwyliau.Tŷ Nant, Capel Celyn.
c) C23/0864/04/LL - Adeiladu annedd amaethyddol newydd (ail-gyflwyniad).Parc Y Derw Goed, Llandderfel.

Nid oedd gan y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i geisiadau Toiledau Llandderfel a Pharc Y Derw Goed ond cafwyd cyngor fod y cais Tŷ Nant yn mynd yn erbyn polisiau'r Parc Cenedlaethol.

**vi) Materion Ariannol.**
a) Derbyniadau.
i) Grant Cronfa Gymunedol Parc Cenedlaethol Eryr (llwybr troed mynwent Frongoch).

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) D Emyr (llwybr troed mynwent Frongoch).

c) Gwaith torri glaswellt y mynwentydd.
Roedd y clerc wedi derbyn cadarnhad gan y contractwr sy'n torri glaswellt y mynwentydd ei fod am roi'r gorau i'r gwaith. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i hysbysebu'r gwaith ym Mhethe Penllyn a hefyd ar y wefan.

ch) Ceisiadau Ariannol.
i) Derbyniwyd ceisiadau gan Ambiwlans Awyr Cymru a Theatr Bara Caws. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'u trafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.

**vii) Materion lleol.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Camfeydd ar y llwybr troed heibio Berth, Frongoch i Fryn Ffynnon, Rhiwlas angen eu trwsio.
ii) Sbwriel wedi cael ei adael ar ochrau'r ffyrdd ar ol y gwaith torri gwrychoedd.
iii) Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pryd fyddai'r A494 ym Methel yn cael ei drwsio. Nodwyd hefyd fod y goleuadau traffig ar y safle yn torri lawr yn aml.
iv) Derbyniwyd ceisiadau am finiau halen ger Pant Ffynnon, Rhiwlas a Llawr y Cwm, Maerdy.

b) Cais am gefnogaeth i gael diffib i bentref Llanfor**.**
Cafwyd cadarnhad fod y pwyllgor am symud ymlaen i osod polyn ar gyfer y diffib a hefyd i archebu'r offer. Gofynnwyd am gadarnhad fod y Cyngor dal yn gallu eu cynorthwyo i adhawlio'r TAW ac ychwanegu'r offer i bolisi yswiriant y Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol i wneud hyn fel y gwnaed gyda ceisiadau eraill yn y gorffennol.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Rhagfyr 12fed am 7.30 y.h. yn Neuadd Mynach.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..